



# Adroddiad 2020

Llywydd:	Jeff Cargill
Is – Lywydd :	Elfyn a Rhiannon Parry
Caderirydd:	Betsan Hughes
Is-Gadeirydd:	Llion Thomas
Ysgrifennydd:	Lynn Morris
Ysgrifennydd y rhaglen:	Lois Rhiannon
Ysgrifennyddion y Cofnodion:	Elin Mair
Trysorydd:	Dewi Davies
Arweinyddion:	Enfys Evans, Ffion Evans, Dafydd Morris, Elfyn Parry, Phyllis Harries, Gethin Hughes, Caryl Vaughan

Criw bach a byrlymus ydyn ni yn CFFl Llanddeiniol sy'n hoff iawn o ddod at ein gilydd bob nos Lun i gymdeithasu a chael sbort!

Egyr y flwyddyn ym Mis Ebrill, yn Niwrnod Maes Cymru, yn Sir Benfro, lle bu Ifan Davies a Lynn Morris yn rhan o dîm barnu stoc dan 18 CFFl Ceredigion a ddaeth yn drydydd.

Yn dilyn hyn daeth pinacl y flwyddyn - Rali'r Sir yn Lledrod. Defnyddiodd Lois Rhiannon yn ei greddf creadigol yn y gystadleuaeth crefft, Marian Jones yn creu gosodiad blodau a Dewi Davies a Lynn yn Cuginio. Mae'n amlwg bod gan lawer o aelodau'r clwb lygaid am stoc, wrth i Ifan dod yn gyntaf yn y gystadleuaeth barnu defaid Mules dan 16, Guto Lewis yn dod yn ail dan 18 a Gethin Hughes yn dod yn drydydd dan 26 - daeth y tîm yn gyntaf yn y gystadleuaeth barnu Defaid Mule. Mae'n amlwg bod gan Gethin ddant at ddefaid, wrth iddo hefyd cystadlu yn y Cneifio unigol. Yn ogystal, bu Catrin a Sian Cleeton yn cystadlu yn unigol wrth farnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A; cipiodd Sian y 3ydd wobwr! Bu Betsan Hughes a Catrin yn cyfleu hwiangerdd, tra bu Elin Mair a Sian yn rhoi cynnig ar gystadlaethau'r aelodau. Bu Rhianwen Jones a Sarah – Jayne Corfield yn gwisgo Caryl Vaughn, arweinydd y Clwb, tra daeth y Clwb yn drydedd yn y gystadleuaeth ras rhwystr dall, wrth i Dilwyn Harries tywys Iwan Morris o amgylch y cwrs, a Llion Thomas ac Ieuan Morgan yn ail wrth ailgylchu pallet. Tablo oedd cystadleuaeth olaf am y dydd, gyda'r aelodau yn creu golygfa efo amryw o wahanol hwiangerddi wedi'i uno. Llongyfarchiadau i Ifan am ennill cwpan am yr unigolyn uchaf 16 neu iau am farnu Defaid Mule Cymreig, Caryl Morris am gyd-ennill y darian am y daith tramor hiraf i Iwerddon ac i'r Clwb am ennill y cwpan am Glwb bach gorau'r flwyddyn eleni eto! Terfynodd y Clwb y dathliadau gyda BBQ ar fferm Penlan, Llanrhystud; achlysur perffaith i ni hefyd cyflwyno siec i'r Ambiwlans Awyr o'r arian a godwyd o ganu carolau nol ym Mis Rhagfyr. Hoffwn i ddiolch i bawb a wnaeth gynorthwyo, gyda'r paratodau ac ar y dydd.

Terfynwyd cystadlaethau'r Sir am y flwyddyn efo athletau'r Sir. Bu nifer fawr o'r aelodau yn cymryd rhan, gyda'r canlynol yn cyrraedd y 3 uchaf yn eu amryw gystadlaethau – Sian, Lois, Betsan a Catrin. Bu Aaron Jones hefyd yn llwyddiannus yn gystadleuaeth Gala Nofio'r Sir yn y Mis Ionawr canlynol, wrth iddo gipio'r drydedd wobwr yn y Freestyle.

Cychwynodd yr haf gyda'r Sioe Frenhino, gyda Ifan a Guto wrthi yn barnu Defaid Mule, efo Ifan yn cipio'r drydedd wobwr! Yng Nghanol yr haf, cynhaliodd y Clwb noswaith o Rasmus Defaid ym Mhengarreg. Mi roedd y lle dan ei sang ac fe godwyd £1200 i goffrau'r



Clwb! Tra hyn, mi oedd Caryl i fwrdd yn galifantan mewn amryw o wledydd am bythefnos, tra ar drip interrailing gyda CFFI Cymru.

Croesawon nifer o aelodau newydd ym mis Medi wrth i'r clwb ail-ddechrau.

Cafodd griw o ferched hwyl yn It's An Knockout Fforwm y Sir yn Nhregaron, gan ddod yn ail, cyn Diwrnod Maes y Sir yn Fferm y Brif Ysgol, Trawscoed yn Fis Hydref, lle cafodd Lynn, Ifan, Dewi sbort wrth farnu stoc, efo Lois yn creu rhith.

Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid oedd nesaf yn y calendr, lle bu'r criw wrthi yn meimio i gerddoriaeth Cymraeg, Guto yn ennill lwyddiant wrth ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Unawd dan 26 ac ail wrth ganu Emyr, a Betsan a Lois yn cael hwyl wrth berfformio eu deuawd doniol. Ar sail y cystadlaethau gwaith cartref, daeth rhaglen y clwb i'r brig, y llyfr trysorydd yn drydydd a fideo i hyrwyddo cynnyrch lleol i'r cydradd trydydd safle!

Mis Tachwedd cynhaliwyd noson o arddangosfa Tân Gwyllt ar y cyd gyda Chymdeithas Cymuned Llanddeiniol. Braff oedd gweld cynifer o drigolion y pentref wedi dod i'n cefnogi.

Aeth 12 o aelod i'r Chwaraeon Dan Do ym mis Tachwedd yn Llanddewi Brefi; ddaeth Betsan ac Elin yn drydydd yn y Throw Pong a pedwerydd i Dilwyn yn chwarae Snwcer.

Bu Dewi yn cystadlu yn Ffair Aeaf Lloegr yn Stafford wrth farnu wyn. Ymlaen nesaf at Ffair Aeaf Cymru yn Llanelwedd lle bu Ifan yn barnu carcassau wyn, lle fu tîm Ceredigion yn fuddugol, a Dewi'n barnu wyn tew.

Adeg Nadolig, bu'r aelodau yn canu carolau er mwyn codi arian i Calonnau Cymru a'r DPJ Foundation. Buodd trigolion yr ardal eang yn hynod haul, gyda'r swm terfynol yn cyrraedd £700. Swm ardderchog! Bu merched y clwb yn cynorthwyo pentref Llanddeiniol yn y Naws Nadolig yng Nghapel Elim gan ganu carolau Nadolig. Braff oedd gweld y Capel yn llawn!

Nesaf oedd cystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Cymraeg, lle budd 2 tîm dan 16 yn cynrychioli CFFI Llanddeiniol yn Felin Fach.

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol CFFI Llanddeiniol eleni yn Nhyglyn Aeron ar ddechrau Mis Chwefror. Hyfryd oedd cael cwmni ein llywydd am eleni, Jeff Cargill. Eleni eto, cofiwn am aelod ffyddlon a gweithgar o'r clwb, Gwenno Tudor, ac eleni cyflwynwyd ei thlws coffa am aelod mwyaf gweithgar y clwb am y flwyddyn i Lynn. Fe darfwyd y Noson yng nghwmni Dafydd Pantrod a'i fand.

Yn ystod Mis Chwefror, bu aelodau ac arweinyddion y Clwb yn brysur wrth baratoi ac ymarfer ar gyfer wythnos Dramâu'r Sir. Addasiad o gyfieithiad Gwyneth Evans o ddrama Alan Ayckbourn Ernie's Incredible Illucination oedd ein drama, Rhithweledigaethau Rhyfedd Jemeima. Cafwyd hwyl wrth ei berfformio, efo Lois yn ein harwain drwy'r ddrama fel y Prif Cymeriad, ac Ifan yn derbyn llwyddiant wrth ddod yn drydydd fel y perfformiwr gorau dan 16. Rydym ni fel clwb hefyd yn ffodus iawn o ymroddiad Enfys Evans i'r Clwb, wrth iddi gynhyrchu'r ddrama yn hwylus a chadw trefn ar bawb a phopeth. Daethom yn 11eg yn y gystadleuaeth, ac ers hynny wedi perfformio'r ddrama yn Nhalybont, ac yn Neuadd Goffa Llanrhystud yng nghwmni CFFI Lledrod.

Yn dilyn hyn, daeth rai o aelodau'r Clwb at ei gilydd i ffurfio parti deulais er mwyn perfformio yng nghymanfa ganu Dathliad Penblwydd Bryan yr Organ yn 70, a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Deiniol yn Fis Mawrth.

Fel y gwelwch, mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur yng nghalendr CFFI Llanddeiniol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'n harweinyddion, rhieni a ffrindiau'r clwb am eu parodrwydd a'u cymorth bob amser.

*Lynn Morris*  
Ysgrifennyddes

